# HYSBYSIAD YNGHYLCH GWELLIANNAU
# NOTICE OF AMENDMENTS

## Cyflwynwyd ar 7 Mai 2025
## Tabled on 7 May 2025

# Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru)
# Visitor Accommodation (Register and Levy) Etc. (Wales) Bill

**Sam Rowlands** **143**

Section 11, page 6, leave out lines 34 to 40 and insert—

‘( ) taking the accommodation portion of the transaction, and

( ) multiplying that amount by the levy rate that applies in relation to the visitor accommodation (see section 12).

( ) The “accommodation portion” means the amount payable under the contract for the overnight stay that is attributable to the provision of overnight accommodation.

( ) But the accommodation portion does not include any amount reasonably attributable to the provision of—

(a) meals or drinks,

(b) parking for a motor vehicle (other than a parking area within the premises at which the visitor accommodation is provided),

(c) laundry facilities or services,

(d) entertainment, or

(e) transportation to or from the visitor accommodation.’.

Adran 11, tudalen 6, hepgorer llinellau 35 hyd at 40 a mewnosoder—

‘( ) cymryd y rhan sy’n ymwneud â llety o’r trafodiad , a

( ) lluosi’r swm hwnnw â chyfradd yr ardoll sy’n gymwys mewn perthynas â’r llety ymwelwyr (gweler adran 12).

( ) Ystyr “rhan sy’n ymwneud â llety” yw’r swm sy’n daladwy o dan y contract ar gyfer yr arhosiad dros nos y gellir ei briodoli i ddarparu llety dros nos.

( ) Ond nid yw’r rhan sy’n ymwneud â llety yn cynnwys unrhyw swm y gellir ei briodoli yn rhesymol i ddarparu—

(a)prydau neu ddiodydd,

(b) parcio ar gyfer cerbyd modur (heblaw man parcio o fewn y fangre y darperir y llety ymwelwyr ynddi),

(c) cyfleusterau neu wasanaethau golchi dillad,

(d) adloniant, neu

(e) cludiant i'r llety ymwelwyr neu o'r llety ymwelwyr.'.

**Sam Rowlands** **144**

Section 12, page 7, leave out lines 4 to 6 and insert—

'( ) the standard rate is 1 per cent, and

( ) the nil rate is 0 per cent,'.

Adran 12, tudalen 7, hepgorer llinellau 4 hyd at 6 a mewnosoder—

'( ) y gyfradd safonol yw 1 y cant, a

( ) y gyfradd o ddim yw 0 y cant,'.

**Sam Rowlands** **145**

Section 12, page 7, line 8, leave out '(1)(a) or (b) to set the amount of either or both of—

(a) the lower rate of the levy;

(b) the higher' and insert '(1)(*paragraph to be inserted by amendment 144*) to set the amount of the standard'.

Adran 12, tudalen 7, llinell 8, hepgorer '(1)(a) neu (b) i osod swm y naill neu'r llall o'r cyfraddau a ganlyn, neu'r ddwy—

(a) cyfradd is yr ardoll;

(b) cyfradd uwch' a mewnosoder '(1)(*paragraff i'w fewnosod gan welliant 144*) i osod swm y gyfradd safonol'.

**Sam Rowlands** **146**

Section 13, page 7, line 13, leave out 'The lower rate of the levy applies in relation to an overnight stay in visitor accommodation that is—

(a) a pitch or area provided for camping, or

(b) a dormitory or other room or area normally provided on the basis that it may be shared with other people residing in that dormitory or other room or area under a different contract.

(2) The higher rate of the levy applies in relation to an overnight stay in all other' and insert 'The standard rate of the levy applies in relation to an overnight stay in any'.

Adran 13, tudalen 7, llinell 13, hepgorer 'Mae cyfradd is yr ardoll yn gymwys mewn perthynas ag arhosiad dros nos mewn llety ymwelwyr sydd—

(a) yn llain neu'n ardal a ddarperir ar gyfer gwersylla, neu

(b) yn ystafell aml-wely neu'n ystafell arall neu'n ardal arall a ddarperir fel arfer ar y sail y gellir ei rhannu â phobl eraill sy'n preswylio yn yr ystafell aml-wely honno, yn yr ystafell arall honno neu yn yr ardal arall honno o dan gontract gwahanol.

(2) Mae cyfradd uwch yr ardoll yn gymwys mewn perthynas ag arhosiad dros nos ym mhob llety ymwelwyr arall' a mewnosoder 'Mae cyfradd safonol yr ardoll yn gymwys mewn perthynas ag arhosiad dros nos mewn unrhyw lety ymwelwyr'.

**Sam Rowlands** **147**

Section 13, page 7, line 31, leave out 'or the lower rate'.

Adran 13, tudalen 7, llinell 31, hepgorer 'neu'r gyfradd is'.

**Sam Rowlands** **148**

Section 14, page 7, line 37, leave out 'either or both of—

(a) the lower rate of the levy;

(b) the higher rate of the levy' and insert 'the standard rate'.

Adran 14, tudalen 7, llinell 38, hepgorer 'naill neu'r llall o'r cyfraddau a ganlyn, neu at y ddwy—

(a) cyfradd is yr ardoll;

(b) cyfradd uwch yr ardoll' a mewnosoder 'gyfradd safonol'.

**Sam Rowlands** **149**

Section 14, page 8, line 6, leave out 'either or both of—

(a) the lower rate;

(b) the higher' and insert 'the standard'.

Adran 14, tudalen 8, llinell 6, hepgorer 'naill neu'r llall o'r cyfraddau a ganlyn, neu at y ddwy—

(a) y gyfradd is;

(b) y gyfradd uwch' a mewnosoder 'gyfradd safonol'.

**Sam Rowlands** **150**

Section 23, page 12, line 33, leave out 'section and section 24' and insert 'Chapter'.

Adran 23, tudalen 12, llinell 33, hepgorer 'yr adran hon ac adran 24' a mewnosoder 'y Bennod hon'.

**Sam Rowlands** **151**

Section 24, page 13, line 13, leave out '(see section 23)'.

Adran 24, tudalen 13, llinell 13, hepgorer '(gweler adran 23)'.

**Sam Rowlands** **152**

Section 24, page 13, after line 13, insert—

‘( ) Before publishing the report, the principal council must—

(a) send a draft of the report to the members of the levy partnership forum established by the principal council under section [*section to be inserted by amendment 153*](1), and

(b) consult those persons on the draft.’.

Adran 24, tudalen 13, ar ôl llinell 14, mewnosoder—

‘( ) Cyn cyhoeddi’r adroddiad, rhaid i’r prif gyngor—

(a) anfon drafft o’r adroddiad at aelodau’r fforwm partneriaeth ardoll a sefydlir gan y prif gyngor o dan adran [*adran i’w mewnosod gan welliant 153*](1), a

(b) ymgynghori â’r personau hynny ynghylch y drafft.’.

***Sam Rowlands** **153**

Page 13, after line 24, insert a new section—

**‘[ ] Levy partnership forums**

(1) A principal council that has introduced the visitor levy in its area must establish a forum (a “levy partnership forum”) for discussion of issues relating to the visitor levy in the council’s area, with a view to providing the council with, in particular—

(a) information and advice on how the proceeds of the levy may be used for the purposes of destination management and improvement in the council’s area;

(b) information and advice on a proposal by the council (where the Welsh Ministers have made regulations under section 14 enabling principal councils to add an additional amount to the levy) to—

(i) add an additional amount to the levy,

(ii) change an additional amount that has been added to the levy, or

(iii) remove an additional amount that has been added to the levy,

whether before or after the council publishes a report under section 25(3)(b).

(2) The principal council must, in the exercise of any functions under this Part, have regard to any information or advice provided in the forum on the matters specified in subsection (1)(a) and (b).

(3) The principal council must—

(a) take reasonable steps to ensure that it has established the levy partnership forum no later than three months after the date on which the levy comes into effect in the council’s area,

(b) make arrangements for the forum to meet at least once in each financial year in which the levy has effect in the council’s area, and

(c) facilitate meetings of the forum and take reasonable steps to ensure that the forum is able to effectively discuss issues, and provide information and advice, as described in subsection (1).

(4) The principal council—

(a) must take reasonable steps to ensure that the levy partnership forum includes persons who are representatives of—

(i) organisations that represent businesses that work in tourism, or are engaged in activities related to tourism, in the principal council's area;

(ii) organisations that promote or facilitate tourism in the council's area;

(b) may include in the forum any other persons, that have an interest in tourism or visitor accommodation in the council's area, that the council considers appropriate.

(5) The principal council must, in exercising its functions under subsection (3), take reasonable steps to ensure that the forum membership is representative of a range of views concerning tourism and visitor accommodation in the council's area.'.

Tudalen 13, ar ôl llinell 26, mewnosoder adran newydd—

**'[ ] Fforymau partneriaeth ardoll**

(1) Rhaid i brif gyngor sydd wedi cyflwyno'r ardoll ymwelwyr yn ei ardal sefydlu fforwm ("fforwm partneriaeth ardoll") ar gyfer trafod materion sy'n ymwneud â'r ardoll ymwelwyr yn ardal y cyngor, gyda'r bwriad o ddarparu'r canlynol, yn benodol, i'r cyngor—

(a) gwybodaeth a chyngor ynghylch sut y gellir defnyddio enillion yr ardoll at ddibenion rheoli a gwella cyrchfannau yn ardal y cyngor;

(b) gwybodaeth a chyngor ynghylch cynnig gan y cyngor (pan fo Gweinidogion Cymru wedi gwneud rheoliadau o dan adran 14 sy'n galluogi prif gynghorau i ychwanegu swm ychwanegol at yr ardoll) i—

(i) ychwanegu swm ychwanegol at yr ardoll,

(ii) newid swm ychwanegol sydd wedi ei ychwanegu at yr ardoll, neu

(iii) dileu swm ychwanegol sydd wedi ei ychwanegu at yr ardoll,

pa un ai cyn neu ar ôl i'r cyngor gyhoeddi adroddiad o dan adran 25(3)(b).

(2) Rhaid i'r prif gyngor, wrth arfer unrhyw swyddogaethau o dan y Rhan hon, roi sylw i unrhyw wybodaeth neu unrhyw gyngor a ddarperir yn y fforwm ar y materion a bennir yn is-adran (1)(a) a (b).

(3) Rhaid i'r prif gyngor—

(a) cymryd camau rhesymol i sicrhau ei fod wedi sefydlu'r fforwm partneriaeth ardoll heb fod yn hwyrach na thri mis ar ôl y dyddiad y daw'r ardoll yn effeithiol yn ardal y cyngor,

(b) gwneud trefniadau i'r fforwm gyfarfod o leiaf unwaith ym mhob blwyddyn ariannol y mae'r ardoll yn cael effaith ynddi yn ardal y cyngor, ac

(c) hwyluso cyfarfodydd y fforwm a chymryd camau rhesymol i sicrhau bod y fforwm yn gallu, fel y disgrifir yn is-adran (1), drafod materion, a darparu gwybodaeth a chyngor, yn effeithiol.

(4) O ran y prif gyngor—

(a) rhaid iddo gymryd camau rhesymol i sicrhau bod y fforwm partneriaeth ardoll yn cynnwys personau sy’n gynrychiolwyr o—

(i) sefydliadau sy’n cynrychioli busnesau sy’n gweithio ym maes twristiaeth, neu sy’n ymwneud â gweithgareddau sy’n gysylltiedig â thwristiaeth, yn ardal y prif gyngor;

(ii) sefydliadau sy’n hybu neu’n hwyluso twristiaeth yn ardal y cyngor;

(b) caiff gynnwys yn y fforwm unrhyw bersonau eraill, sydd â buddiant ym maes twristiaeth neu mewn llety ymwelwyr yn ardal y cyngor, y mae’r cyngor yn ystyried eu bod yn briodol.

(5) Rhaid i’r prif gyngor, wrth arfer ei swyddogaethau o dan is-adran (3), gymryd camau rhesymol i sicrhau bod aelodaeth y fforwm yn gynrychioliadol o ystod o safbwyntiau sy’n ymwneud â thwristiaeth a llety ymwelwyr yn ardal y cyngor.’.

**Sam Rowlands** **154**

Section 25, page 14, line 1, leave out ‘an estimate of the proceeds of the levy in respect of the first full financial year after the levy is introduced and an estimate of the costs it is likely to incur in connection with the proposal’ and insert ‘the matters set out in subsection (*subsection to be inserted by amendment 156*)’.

Adran 25, tudalen 14, llinell 1, hepgorer ‘amcangyfrif o enillion yr ardoll mewn cysylltiad â’r flwyddyn ariannol lawn gyntaf ar ôl cyflwyno’r ardoll ac amcangyfrif o’r costau y mae’n debygol o fynd iddynt mewn cysylltiad â’r cynnig’ a mewnosoder ‘y materion a nodir yn is-adran (*is-adran i’w mewnosod gan welliant 156*)’.

**Sam Rowlands** **155**

Section 25, page 14, line 5, after ‘changed’, insert ‘, and information on how the principal council intends to use those proceeds and on how that use will be for the purposes of destination management and improvement in the council’s area’.

Adran 25, tudalen 14, llinell 6, ar ôl ‘ardoll’, mewnosoder ‘, a gwybodaeth ynghylch sut y mae’r prif gyngor yn bwriadu defnyddio’r enillion hynny ac ynghylch sut y bydd y defnydd hwnnw at ddibenion rheoli a gwella cyrchfannau yn ardal y cyngor’.

***Sam Rowlands** **156**

Section 25, page 14, after line 11, insert—

‘( ) The matters referred to in subsection (3)(b)(i) are—

(a) an estimate of the proceeds of the levy in respect of the first full financial year after the levy is introduced and an estimate of the costs the principal council is likely to incur in connection with the proposal,

(b) information on how the principal council intends to use those proceeds and on how that use will be for the purposes of destination management and improvement in the council’s area, and

(c) the principal council's proposals for membership of the levy partnership forum to be established by the council under section [*section inserted by amendment 153*], specifying the persons the council intends to invite to be members of the forum.'.

Adran 25, tudalen 14, ar ôl llinell 12, mewnosoder—

'( ) Y materion y cyfeirir atynt yn is-adran (3)(b)(i) yw—

(a) amcangyfrif o enillion yr ardoll mewn cysylltiad â'r flwyddyn ariannol lawn gyntaf ar ôl cyflwyno'r ardoll ac amcangyfrif o'r costau y mae'r prif gyngor yn debygol o fynd iddynt mewn cysylltiad â'r cynnig,

(b) gwybodaeth ynghylch sut y mae'r prif gyngor yn bwriadu defnyddio'r enillion hynny ac ynghylch sut y bydd y defnydd hwnnw at ddibenion rheoli a gwella cyrchfannau yn ardal y cyngor, ac

(c) cynigion y prif gyngor ar gyfer aelodaeth o'r fforwm partneriaeth ardoll sydd i'w sefydlu gan y cyngor o dan adran [*adran i'w mewnosod gan welliant 153*], sy'n pennu'r personau y mae'r cyngor yn bwriadu eu gwahodd i fod yn aelodau o'r fforwm.'.

**Sam Rowlands** **157**

Section 25, page 14, after line 26, insert—

'(h) where the proposal is to introduce the levy, every person specified in the report by virtue of subsection (*subsection inserted by amendment 156*)(c) that is not otherwise a mandatory consultee, and

(i) where the proposal is to change or abolish the levy, every member of the levy partnership forum established by the council under section [*section inserted by amendment 153*] that is not otherwise a mandatory consultee.'.

Adran 25, tudalen 14, ar ôl llinell 27, mewnosoder—

'(h) pan mai cyflwyno'r ardoll yw'r cynnig, pob person a bennir yn yr adroddiad yn rhinwedd is-adran (*is-adran i'w mewnosod gan welliant 156*)(c) nad yw fel arall yn ymgynghorai gorfodol, ac

(i) pan mai newid yr ardoll neu ei ddiddymu yw'r cynnig, pob aelod o'r fforwm partneriaeth ardoll a sefydlir gan y cyngor o dan adran [*adran i'w mewnosod gan welliant 153*] nad yw fel arall yn ymgynghorai gorfodol.'.

**Sam Rowlands** **158**

Section 25, page 15, after line 4, insert—

'"destination management and improvement" ("*rheoli a gwella cyrchfannau*") is to be interpreted in accordance with section 23;'.

Adran 25, tudalen 15, ar ôl llinell 6, mewnosoder—

'mae "rheoli a gwella cyrchfannau" ("*destination management and improvement*") i'w ddehongli yn unol ag adran 23.'.